***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Paragraff 1. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

## CYMHWYSTRA I DDERBYN CYMORTH O DAN BENNOD 2 O RAN 2

### *Personau nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth*

1 (1) Nid yw person yn gymwys i dderbyn cymorth o dan adran 66, 68, 73 neu 75 os yw'n berson o dramor sydd yn anghymwys am gynhorthwy tai.

(2) Nid yw person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys am gynhorthwy tai oni bai bod y person hwnnw yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Ni chaiff unrhyw berson a eithrir rhag hawlogaeth i gredyd cynhwysol neu fudd-dal tai gan adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (eithrio rhag budd-daliadau) ei gynnwys mewn unrhyw ddosbarth a ragnodir o dan is-baragraff (2).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer disgrifiadau eraill o bersonau sydd i'w trin fel personau o dramor sydd yn anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai at ddiben Pennod 2 o Ran 2.

(5) Caiff person sy'n anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai ei ddiystyru wrth benderfynu at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 a yw person sy'n dod o dan is-baragraff (6)—

(a) yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu

(b) ag angen blaenoriaethol am lety.

(6) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'r person yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir o dan is-baragraff (2), a

(b) os nad yw'r person yn wladolyn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I3** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 27.4.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 52** (ynghyd ag ergl. 5)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Paragraff 1.